

yr Athro

Kirsty Williams yn diolch i UCAC am arwain y ffordd

Ar fore Sadwrn heulog yng Ngregynog ymunodd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg â Chynhadledd UCAC. Roeddem yn falch iawn ei bod wedi derbyn y gwahoddiad a chafwyd neges glir a chadarn ganddi am ei gweledigaeth i'r sector addysg yng Nghymru.


Dechreuodd gan ddweud ei bod yn falch gweld mewn adroddiad diweddar yr OECD ar addysg yng Nghymru fod gwelliannau wedi eu gwneud yn barod. Roedd hefyd yn falch o weld y bwloch cyrhaeddiad yn lleihau rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig â'u cymheiriaid. Fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg dywedodd ei bod yn benderfynol y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r proffesiwn ond roedd yn cyfaddef fod cyfnod heriol o'n blaenau yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Amlinellodd ei gweledigaeth am system addysg fyddai'n gydradd ac yn rhagorol i bawb. Byddai'n gwneud hyn drwy:

- leihau maint dosbarthiadau
- cyflwyno safonau newydd ar gyfer dysgu ac arweinyddiaeth
- sefydlu Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol newydd
- ail-lunio hyfforddiant cychwynnol athrawon



Aeth ymlaen i ddatgan ei gwerthfawrogiad i UCAC am arwain ar y ddatl am ddatganoli cyflog ac amodau athrawon i Gymru. Nododd fod hyn yn gyfle cyffrous i ni yng Nghymru siapio cyfundrefn unigryw i athrawon ein gwlad. Anogodd UCAC i barhau i arwain y ddatl dros system deg a chydradd i athrawon yng Nghymru. *(yn parhau ar dudalen 2)*



Ydych chi wedi gweld ffilm UCAC ar ddatganoli cyflog ac amodau athrawon? Ewch i www.ucac.cymru/datganoli

(yn parhau o dudalen 1)

Yn ogystal dywedodd ei bod am sicrhau na fyddai unrhyw ddisgybl dan anfantais wrth ddilyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd fod staff eu hadran yn cydweithio gyda CBAC gan edrych am ateb i'r broblem yn y tymor byr ond bod hefyd angen sicrhau datrysiad yn y tymor hir. Dywedodd fod angen cynllunio am anghenion newydd y cwricwlwm yn y Gymraeg ar y cyd â'r Saesneg.

Cafwyd cwestiynau niferus gan ein haelodau ar bynciau amrywiol - ond un mater oedd yn achosi'r gofid pennaf, ac ategwyd teimladau'r aelodau gan Elaine Edwards ein Hysgrifennydd Cyffredinol, sef bod wir angen mynd i'r afael â llwyth gwaith athrawon. Mae llwyth gwaith yn parhau i godi ac mae canran uchel o'n haelodau yn poeni'n arw am eu llwyth gwaith sy'n effeithio fawr ar gydbwysedd bywyd-gwaith. Atebodd yr Ysgrifennydd gan ddweud ei bod yn gobeithio y byddai'r pwyntiau a gododd ynghynt megis lleihau maint dosbarthiadau a hyfforddiant yn mynd i'r afael â pheth o'r broblem, ond dywedodd nad oedd ganddi'r atebion i gyd eto, ond yn sicr roedd am edrych ar y mater yn ddifrifol.

Croeso cynnes yng Ngregynog



Ar 31 Mawrth eleni, daeth cynrychiolwyr o bob cwr o'r wlad at ei gilydd i Neuadd Gregynog yn Sir Drefaldwyn i drafod, herio, rhannu syniadau a chymdeithasu yng Nghynhadledd Flynyddol UCAC.

Yn ogystal â chroesawu Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i roi cyflwyniad ac ateb cwestiynau'r cynadleddwyr ar y bore Sadwrn, cafwyd trafodaethau ar faterion llog megis y cwricwlwm newydd, llwyth gwaith a datganoli cyflog ac amodau gwaith athrawon dros y penwythnos ar ei hyd.

Pasiwyd 27 o benderfyniadau ar bynciau megis:

- Sefydlu model cenedlaethol ar gyfer athrawon cyflenwi
- Darpariaeth lles ac iechyd awdurdodau lleol
- Safonau proffesiynol athrawon
- Gwarantu swydd i Athrawon Newydd Gymhwysu
- Lleihau maint dosbarthiadau

Penderfyniadau'r Gynhadledd fydd yn gosod sail ar gyfer gwaith ymgyrchu'r undeb dros y flwyddyn i ddod, ac mae modd lawrlwytho copi o'r penderfyniadau ar wefan UCAC: https://www.ucac.cymru/images/taflenni_gwybodaeth/PenderfyniadauCynhadledd2017.pdf

Ochr yn ochr â'r cynigion ffurfiol, cafwyd sesiynau trafod diddorol dros ben. Pleser oedd croesawu panel o arbenigwyr fu'n trafod datblygiadau diweddar y cwricwlwm newydd a'r ysgolion arloesi yng Nghymru (rhagor ar dudalen 6). Cafwyd trafodaeth frwd ar bwysigrwydd addysg a rôl y gweithlu addysg wrth anelu at gyrraedd Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (ewch i dudalen 5 i ddarllen mwy).

Bydd Cynhadledd Flynyddol 2018 yn cael ei chynnal yn Nant Gwrtheyrn ar 20-21 Ebrill - rhwch y dyddiad yn eich dyddiaduron!

CYNGOR I AELODAU

Mewn achos o gyhuddiad yn eich erbyn, cysylltwch ag UCAC yn syth cyn cytuno i roi datganiad.

MAE UCAC YMA I'CH CEFNOGI!



Am gyngor neu gefnogaeth ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â'ch cyflogaeth, cysylltwch ag UCAC ar:

01970 639 950
ucac@ucac.cymru
www.ucac.cymru

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Gwenno Wyn
Is-Lywydd: Phil Higginson
Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards
Cydylynydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidiwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

Tâl aelodaeth 2017-18

Dyma fydd tâl aelodaeth UCAC o fis Medi 2017:

Categori aelodaeth	Tâl blynyddol	Tâl misol
Llawm amser	£204.00	£17.00
Rhan amser 0.7-0.9	£171.00	£14.25
Rhan amser 0.4-0.6	£132.00	£11.50
Rhan amser 0.3 neu lai	£114.00	£9.50
Blwyddyn galendr gyntaf o addysgu	AM DDIM	
Ail flwyddyn galendr o addysgu	HANNER PRIS	

Llywydd Cenedlaethol 2017-18: Phil Higginson



Pam ydw i'n aelod o UCAC? Pan ddechreuais i ddysgu, roedd Jiwli, fy ngwraig, yn aelod ffyddlon o UCAC, ac yn gweithio yn Ysgol Bwlch-y- groes, sir Benfro, lle roedd Gwylon Phillips yn bennaeth, ac hefyd, wrth gwrs, yn Ysgrifennydd Sir – felly, doedd dim dewis gen i - dilyn siampl Jiwli a Gwylon...ni fyddai ystyried ymuno â'r NAS neu'r NUT wedi croesi fy meddwl.

Dyma fi, felly, yn aelod o UCAC, yn mwynhau dysgu, ac, fel llawer o athrawon, ddim yn meddwl o gwbl am undebaeth. Gwyn fy myd! Ond, daeth dau ddigwyddiad i darfu ar fy heddwch meddwl. Y cyntaf, oedd gweld athro hŷn, profiadol, uchel ei barch, yn cael ei gyhuddo ar gam o gam-drin plentyn yn yr ysgol. Doedd e ddim yn aelod o UCAC. Roedd e'n gynrychiolydd o un o'r undebau mawr Prydeinig. Do, cafodd gefnogaeth gan ei undeb – wnaethon nhw dalu iddo fynd â'i gyfreithiwr ei hun gydag ef i orsaf yr heddlu. Buodd ef yn trafod ei sefyllfa gyda fi – doedd e ddim yn hapus. Llusgodd yr achos ymlaen am fisoedd, nes bod yr heddlu yn dweud nad oedd 'na achos i gael, wedi'r cyfan. Erbyn hynny, wrth gwrs, roedd ei iechyd wedi torri. Ac mi welais i'n glir bod yna fwy i swyddogaeth undeb na dim ond talu am gyngor cyfreithiol. Mae angen y gefnogaeth bersonol, fugeiliol, i weld yr aelod trwy'r amseroedd tywyll.

Tua'r un pryd, digwyddodd rhywbeth i fi. Dysgu set gwaelod Blwyddyn 11 ar ddiwedd y dydd – yn y dosbarth, roedd bachgen sensitif a swil – galwn ef yn "Lyn". Roedd 'na fachgen arall yn y dosbarth – crwt mawr, cyhyrog, oedd yn ystyried ei hun yn foi caled – galwn ef yn "Jason". Roedd nifer ohonyn nhw wedi anghofio'r nodiadau roeddwn i wedi rhoi iddyn nhw yn y wers flaenorol, felly, ar ôl ychydig o gerydd, dyma fi'n apelio; *"a ga i eich trysto chi nawr, i fod yn deidi ac ymddwyn yn dda tra 'mod i'n mynd i wneud llungopiâu?"*

"Ww, iawn, syr" medden nhw. Mâs â fi. Ymhen 5 munud roeddwn yn ôl yn fy ystafell. Wel, dyna le... roedd "Jason" wedi rhoi clatsien i "Lyn", a hwnnw â'i ben ar y ddesg mewn pwll o waed. Galwyd am ambwiwlans, a holi'r dosbarth ynglŷn â'r digwyddiad. Wnes i gwmpo ar fy mai i'r Pennaeth yn syth – *"Mae bai arna i – wen i ddim yn y stafell ddosbarth"*.

"Wel", medde fe, "cawn weld – doeddet ti ddim yn dy ystafell ddosbarth, ond dim ond wedi gadael yr ystafell i wneud rhywbeth i'w helpu nhw wnes di, ac mae'n nhw dros un ar bymtheg oed – cawn ni weld".

Cawson ni weld.

Cafodd Lyn blât metel yn ei ben, a fydd gydag e am weddill ei fywyd. Cyflwynodd nifer o'r merched yn y dosbarth ddatganiadau i'r heddlu yn cadarnhau mai ymosodiad hollol ddireswm oedd e. Er imi ofyn, gwrthododd yr heddlu dderbyn datganiad oddi wrthyf i, am nad oeddwn i'n llygad-dyst.

Beth ddigwyddodd? Fisoedd wedyn, ar ddiwrnod cyntaf yr achos yn y llys, tynnodd y merched eu datganiadau yn ôl. Wn i ddim pam. Daeth rhieni "Lyn" i 'ngweld i, a dweud, er iddyn nhw gael cyngor cyfreithiol y gallen nhw fynd â'r awdurdod, a'r ysgol, a fi, i'r llys am arian mawr, fydden nhw ddim yn gwneud hynny – roedd "Lyn" yn teimlo fy mod i wedi bod yn gefn iddo yn yr ysgol. Oni bai am ddoethineb disgybl, doethineb ei rieni, a doethineb Pennaeth yr ysgol, gallai fy ngyrfa fel athro fod wedi dod i ben 20 mlynedd yn ôl.

Pan ddechreuais yn Ysgol y Preseli ychydig wedyn galwodd Moelwen Gwyndaf, yr Ysgrifennydd Cyffredinol bryd hynny, yn yr ysgol i gwrdd â'r aelodau. Roedd angen apwyntio Ysgrifennydd Sir, a neb yn barod i ymgymryd â'r gwaith. Rhag fy nghywilydd, wnes i eistedd drwy'r tawelwch, yn meddwl am yr holl resymau pam na allwn innau ei wneud... ac wedyn, wrth gofio'r profiadau wnes i sôn amdany'n nhw'n gynharach, sylweddolais bod yn **rhaid** ei wneud.

Ac, wrth edrych o gwmpas y stafell, rwy'n synhwyro bod pob un sydd wedi dod yma heno oherwydd ei bod hi neu ei fod ef yn teimlo'r rheidrwydd, yr **ysfa**, i wneud rhywbeth i helpu ein gilydd. Yn y system sydd ohoni, mae'r athro unigol yn fregus; ond, gyda'n gilydd, **yr ydym yn nerthol**.

Anrhydedd o'r radd flaena yw'r cyfle i wasanaethu fel Llywydd. Diolch i chi, Elaine, a'r swyddogion, a diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth.

I gadw mewn cysylltiad ag UCAC, dilnywch ni ar:



@AthrawonCymru



/AthrawonCymru



Cynhadledd i'w chofio!

Bydd 2017 yn flwyddyn gofiadwy i sawl un ohonom rwy'n sicr. Dechreuodd i mi trwy fentro - wynebu her swydd newydd, newid lleoliad a chyd-weithwyr a newid trywydd ychydig. Wedyn dywedodd ffrind wrthyf, " Ddylet ti fynd i gynhadledd UCAC a thithau ar yr Adran Gydraddoldeb." Wna i ddim gwadu mai tipyn o sinig ydw i yn y bôn (fel cynifer ohonom pe baem yn onest!) – pa les i athrawon eistedd yn stwnsian mewn siop siarad am ddeuddydd mewn cynhadledd sych a ninnau'n gwegian dan lwyth gwaith afresymol ac angen gofalu am deulu? Yn anffodus, dyna oedd fy agwedd fwrdd-â-hi.

Ond sylweddolais dro yn ôl bod angen sgwd iawn arnaf. Dyw difaterwch yn helpu neb. Os ydyn ni yn anfodlon â'r sefyllfa bresennol ym myd addysg yna mae'n rhaid i ni afael ynddi a defnyddio'n llais trwy UCAC er mwyn i'r undeb ddylanwadu ac ymladd am newidiadau ar ein rhan. I'r perwyl hwnnw felly y dechreuais i gyfrannu'n fwy gweithredol rai blynyddoedd yn ôl i UCAC a dyna pam yr euthum i Neuadd Gregynog eleni.



*Sioned Llywelyn Roberts
(athrawes yn Ysgol Gyfun Llangefni)*

Cefais gwmni tri gŵr doeth wrth deithio o'r gogledd am y canolbarth a derbyn argymhellion fel perlau ganddynt! Deall bod yn rhaid annerch y cynadleddwyr o'r llwyfan wrth gyflwyno cynnig. Felly bŵm yn chwysu a phendroni'n hir am hyn. Profi croeso twymgalon wrth gyrraedd y plasty hynafol, bwyd blasus a chyfnod byr i sgwrsio cyn camu i'r neuadd odidog a chychwyn Cynhadledd UCAC 2017 o ddfri.

O fewn munudau anghofiais mai mewn cynhadledd oeddwn i. Roeddwn yn teimlo cyffro, bwrlwm a brwdfrydedd pobl o'r un meddylfryd â mi. Cefais agoriad llygad go iawn – roedd y cyflwyniadau, y trafodaethau a'r anerchiadau yn addysgiadol. Roedd y cynadleddwyr yn drawstoriad llwyr o gymdeithas. Bwrw mhrentisiaeth wrth gyflwyno cynnig gan yr Adran Gydraddoldeb (ond dim patsh ar anerchiad huawdl Dilwyn a sawl un arall – bydd rhaid i mi ymarfer fy sgiliau erbyn 2018!) ac anadlu'n ddwfn wrth lwyddo i orffen yn ddidramgwydd! Cyfle wedyn i drafod a chanfod adnoddau a gwybodaeth ar arddangosfa stondinau cyn gloddesta a mwynhau noson gyntaf andros o hwyllog yng nghwmni fy nghyd gynadleddwyr a Raffdam.



Un uchafbwynt mewn cyfres o uchafbwyntiau oedd anerchiad Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y bore Sadwrn. Diolch i weithwyr caled UCAC am drefnu rhaglen mor gynhwysfawr ac am sicrhau cyfraniad gan siaradwyr o fri yn y gynhadledd yn ogystal a sawl cyfle i drafod a lleisio barn o'r llawr. Clywsom dros y ddeuddydd am ddatblygiadau sy'n yr arfaeth o ran y cwricwlwm newydd i Gymru, anelu at gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, datganoli cyflog ac amodau gwaith, pryderon athrawon o ran llwyth gwaith, sicrhau ansawdd a derbyn adnoddau safonol cyfrwng-Cymraeg a chant a mil o faterion eraill. Deuthum o'r gynhadledd hon wedi fy herio, fy ysbrydoli a 'mhen ar ffrwydro gan gymaint yr wybodaeth oedd yn chwyrlïo ynddo!

Da chi, peidiwch cael eich llethu gan y pwysau parhaus sydd arnom - dewch i Gynhadledd Flynyddol UCAC. Byddwch yn rhyngweithio! Ymunwch yn y frwydr i newid addysg er y gorau. Os gawn ni hanner cymaint o hwyl a bwrlwm yn Nant Gwrtheyrn yn 2018 yna bydd hi'n gynhadledd a hanner..... ond anghofia i fyth fy nghynhadledd gyntaf. O! ia a phaciwch eich gitâr, neu eich ffidil a'ch llais. Mae'r henoed yn gallu canu hefyd!



UCAC yn ARWAIN Y FFORDD: Datganoli Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon



Yng Nghynhadledd Flynyddol UCAC cafwyd gorolwg o fwriad Llywodraeth Cymru i ddatganoli cyflogau ac amodau gwaith a hynny mewn anerchiad gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac ar ffilm sydd i'w gweld ar wefan yr Undeb.

Wrth inni fel undebau ystyried y trefniadau ar gyfer y cam rhesymegol hwn wrth ddatganoli addysg roedd cyfle i ystyried sawl agwedd ar gyflog ac amodau gwaith. Roedd y drafodaeth yn un fywiog ac adeiladol gyda thystiolaeth, unwaith eto, mai athrawon wŷr orau am addysg!

O ran cyflogau roedd pwyslais ar yr angen am gyflogau teg i athrawon oedd yn cyfateb i gyflogau mewn meysydd cyflogaeth eraill. Roedd ymdeimlad bod angen parhau gyda thaliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD) a lwfansau Anghenion Addysgu Arbennig (AAA) ond roedd angen sicrhau bod y taliad

yn un teilwng ac nad oedd ysgolion yn manteisio ar yr elfen hon o gyflog i orweithio athrawon ac i ofyn iddynt wneud gwaith oedd tu hwnt i ofynion y taliad.

Wrth reswm nid dyfarniad cyflog yn unig fydd wedi ei ddatganoli ac mae cyfle euraidd bellach i sicrhau amodau gwaith tecach. O ran 'Oriau Cyfeiriedig' roedd galw ymysg y cynadledwyr am fwy o hyblygrwydd yn oriau gwaith athrawon a hefyd i edrych ar fodel yr Alban o bennu oriau penodol i wneud gwaith heb fynd y tu hwnt i'r oriau hynny.

Yn ystod y trin a'r trafod cafwyd gorolwg o'r heriau sydd yn wynebu ysgolion heddiw gan gynnwys yr erydu ar amser statudol Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA). Bu trafod hefyd ar y diffyg amser digyswllt sydd wedi ei neilltuo ar gyfer dyletswyddau arweinyddion, ysgolion ac adrannau, gan gynnwys y rhai sydd yn arwain heb gydnabyddiaeth yn absenoldeb penaethiaid.

Yr hyn sy'n sicr yw bod angen i'n hysgolion dderbyn cyllid digonol i sicrhau bod ein penaethiaid a'n hathrawon yn cael cyflogau sy'n anrhydeddu eu harbenigedd a'u hymrwymiad ac sydd hefyd yn sicrhau'r cydbwysedd bywyd a gwaith sy'n fethiant llwyr dan y trefniadau presennol.

Eisiau gwybod mwy am ddatganoli cyflog ac amodau athrawon? Mae UCAC yn trefnu taith ledled Cymru i rannu gwybodaeth gydag aelodau. Byddwn yn cadarnhau dyddiadau a lleoliadau YN FUAN: Cadwch lygad ar eich negeseuon ebost ac ar wefan UCAC: www.ucac.cymru/datganoli

Miliwn o siaradwyr Cymraeg – y gweithlu addysg



Mae pob aelod o UCAC yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, wrth gwrs – ond sut mae troi y dyhead hwnnw yn realiti?

Dyna bwrpas gweithdy a gynhaliwyd yng Nghynhadledd UCAC yng Ngregynog fis Mai, o dan arweiniad Elaine Edwards, ein Ysgrifennydd Cyffredinol. Sut mae ehangu a hyfforddi gweithlu addysg Cymru fel bod modd i ni gyrraedd y nod?

Nid darlith sych, academiaidd a gafwyd, ond sesiwn byrlymus a bywiog i wyntyllu gwahanol syniadau, gan ddefnyddio codau Q a thechnoleg digidol i'w rhannu. Un o'r prif themâu oedd pa mor allweddol y mae creu cymhelliad ymhlith ein dysgwyr ifainc – *sicrhau fod hanes Cymru yn cael ei ddysgu i bob plentyn – o bersbectif Cymreig* meddai un a enynnai dipyn o gefnogaeth.

Daeth sawl awgrym ymarferol; *adfer grant 14-19 fel y gall ysgolion ariannu cyrsiau megis CACHE yn y Gymraeg er mwyn tyfu'r gweithlu* – yn sicr, dyma rhywbeth gall y Llywodraeth ei weithredu'n fuan – beth amdani, Kirsty? *Buddsoddi mewn*

hyfforddiant – nid gwyddor taflegryn, efallai, ond, bois bach, mae angen atgoffa ein meistri gwleidyddol ambell waith!

Roedd nifer o sylwadau yn cydnabod pwysigrwydd ffactorau seicolegol wrth gynllunio'r gweithlu – *yr angen i fagu hyder ymhlith dysgwyr da i ddefnyddio'r Gymraeg – helpu plant i weld yr iaith fel rhywbeth byw yn y gweithle* – daeth rhaglenni gwych S4C ar cwmni Mansel Davies i'r meddwl fan hyn.

Rhoddai ambell i sylw her addysgegol i'r cynadledwyr - *dysgu fel cyfrwng, ac nid fel pwnc* – tra bo eraill yn canolbwyntio ar ddulliau rheolaethol – *gosod targedau a chynnal athrawon yn y gweithlu*. Un sylw diddorol a bachog oedd wedi sbarduno fy nychymyg innau – *mabwysiadu meddyllfryd Llychlynaidd* – ar ôl hir bendroni, penderfynais mai efelychu ymagweddion gwaraidd gwledydd presennol Sgandinafia oedd yr awgrym, yn hytrach nag ymarferion treisgar Harald Glasddant a'i hil...

Sesiwn defnyddiol a diddorol – diolch i ti, Elaine.

“Cwricwlwm Newydd i Gymru - Bocs Pandora efo trefn iddo?”

Cafwyd trafodaeth ddifyr a diddorol iawn ar Cwricwlwm i Gymru - y Camau Nesaf gan ein panel ar brynhawn dydd Gwener ein cynhadledd eleni ym Mhlas Gregynnog. Roedd y panel dan gadeiryddiaeth Dilwyn Roberts-Young yn cynnwys Dr Llinos Jones, Pennaeth Ysgol Bro Myrddin; Daniel Davies, Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd y Castell, Caerffili; Geraint Rees, Llywodraeth Cymru a Huw Foster Evans, Llywodraeth Cymru. Pedwar unigolyn sydd wedi cyfrannu mewn amrywiol ffyrdd i addysg yng Nghymru a cawsom ddarlun o brofiad y pedwar wrth i Gymru ddechrau ymdopi â chwricwlwm newydd.

Diddorol iawn oedd cyffelybiaeth Dr Llinos Jones o fod yn un o'r ysgolion arloesi efo'r cwricwlwm newydd. "Taith mewn bws ac mae'r ysgol yng nghefn y bws ac weithiau mae'n teimlo nad yw'r gyrrwr yn gwybod i ble mae'n mynd!"

Gwyddom oll bod y cyfnod yma'n heriol iawn gyda chynifer o newidiadau a pholisïau newydd yn dod o dŷ'r Llywodraeth. Calonogol oedd clywed Geraint Rees yn dweud bod yr holl newidiadau yma yn mynd i'r un cyfeiriad. Mae cyfundrefn addysg newydd i Gymru yn cael ei chreu ar y funud ac mae gennym oll gyfraniad. "Pa fath o Gymru ydym ni eisiau creu?" gofynnodd.

Roedd gan Huw Foster Evans newyddion calonogol iawn i'r cynadleddwyr pan gyhoeddodd y byddai holl adnoddau'r cwricwlwm newydd ar gael yn Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. "Mae'r egwyddor yma eisoes wedi'i sefydlu," meddai. Gwyddom yn iawn bod sawl enghraifft o werslyfrau yn ymddangos yn Saesneg ymhell cyn i'r fersiwn Cymraeg weld golau dydd. Nododd hefyd mewn meysydd addysgu fel y dyniaethau y byddai'n rhaid i ysgolion gychwyn efo



Cymru cyn estyn allan i weddill y byd. Ai dyma ddiwedd 1066 a phethau eraill amherthnasol i Gymru? Hei lwc wir!

Mae cryn ansicrwydd yn bodoli o fewn y proffesiwn am yr hyn sy'n digwydd o safbwynt y cwricwlwm newydd gyda negeseuon cymysglyd yn deillio o'r ysgolion arloesi. Roedd Huw Foster Evans yn ffyddiog fod y gwaith yn mynd rhagddo. Gallwn ddisgwyl gwybodaeth i gyrraedd ein hysgolion cyn bo hir, ond dim dogfennau efo cynnwys cwricwlaidd fydd rhain. Fel nododd "Lle'r ysgolion fydd rhoi'r cig ar yr asgwrn."

Does dim dwywaith y bydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn her arall enfawr i'n hysgolion, ond efallai mai geiriau Daniel Davies sy'n Ddirprwy Bennaeth mewn ysgol arloesi sydd yn fwyaf addas i orffen pan nododd mai "Yr her fwyaf ydy newid meddylfryd athrawon."

Dyma ddetholiad o benderfyniadau a basiwyd yn y Gynhadledd eleni.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu ar frys ei gynllun gweithredol i gyflwyno'r un cymhwyster TGAU Cymraeg i bob disgybl yng Nghymru.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i leihau pob dosbarth Cyfnod Sylfaen sydd â niferoedd anghyfreithlon mewn dosbarth, yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, er lles safonau disgyblion ac i leihau llwyth gwaith athrawon.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru, yn sgil datganoli cyflog ac amodau gwaith i Gymru, i osod nifer penodedig o oriau (e.e. 35 awr) y disgwylir i athro weithio mewn wythnos, a dim mwy.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Gymwysterau Cymru i sicrhau fod y manylebau ar gyfer pob pwnc yn cael eu rhyddhau mewn da bryd fel y gall athrawon baratoi a bod adnoddau addas yn cael eu darparu yn y Gymraeg yr un pryd â'r Saesneg.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru, yn dilyn datganoli cyflog ac amodau gwaith i osod canllawiau statudol am oriau ac amodau CPA ac i ail ystyried amser digyswllt athrawon er mwyn cynyddu Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu i o leiaf 20% o'r amserlen ac i gynyddu amser rheolaethol.

I ddarllen yr holl benderfyniadau, ewch i wefan UCAC.

Cyhoeddwr Adnoddau Addysg



... yn helpu disgyblion ac athrawon gyda'u gwaith, ac yn annog plant i fwyntau darllen!

Yn ôl mewn print!

Adnodd angenrheidiol ar gyfer manyleb TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd CBAC



01970 622128



caa-archeb@aber.ac.uk



@caacymru



facebook.com/CAACymru

www.aber.ac.uk/caa

CAA, Prifysgol Aberystwyth, Plas Gogerddan, Aberystwyth SY23 3EB

Uwchgynhadledd Ryngwladol y Proffesiwn Addysgu

Mynychodd Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC, Elaine Edwards, Uwchgynhadledd Ryngwladol y Proffesiwn Addysgu yng Nghaeredin ddiwedd mis Mawrth. Roedd yno fel un o ddau arweinydd undeb ar wahoddiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

“Roedd yn brofiad diddorol dros ben. Cyn yr Uwchgynhadledd cefais gyfle i ymweld ag Ysgol Gaeleg, Bun-sgoil Taobh na Pàirce, yr unig ysgol Gaeleg yng Nghaeredin, gyda dros 300 o ddisgyblion o dros 20 cefndir ieithyddol gwahanol. Mae addysg drochi'n allweddol ar gyfer sicrhau rhuglder y disgyblion yno, gyda phob arwydd yn yr ysgol yn uniaith Gaeleg. Braff oedd clywed clod y brifathrawes am yr ysbrydoliaeth a ddaeth o ymweliadau ag ysgolion yng Nghymru; adleisiwyd y ganmoliaeth gan ymwelwyr o ysgolion Maori yn Seland Newydd.

Treuliyd gweddill y diwrnod a'r diwrnod canlynol mewn cyfarfodydd yn gwrando ar gyflwyniadau am systemau addysg gwledydd eraill - gan gynnwys Fietnam, Portiwgal, Y Swistir, Canada, Seland Newydd, UDA, Latfia, Sweden, Estonia, Singapôr, Gwlad Pwyl a'r Ffindir.



Thema'r uwchgynhadledd oedd Cryfhau Proffesiynoldeb Athrawon ac mae'n rhaid nodi bod athrawon o wledydd amrywiol yn amlwg yn wynebu heriau tebyg o ran llwyth gwaith gormodol ar adeg o gynni ariannol, a'r mwyafrif o wledydd yn ceisio mynd i'r afael â diffyg cyfleoedd datblygiad proffesiynol. Mae nifer o wledydd, fel ninnau yng Nghymru, yn bryderus am iechyd a lles athrawon. Cynhaliodd undeb athrawon yn y Swistir arolwg iechyd galwedigaethol ac ymatebodd 50% o'u haelodau.

Diddorol dros ben oedd dysgu am systemau addysg amrywiol, o'r Singapôr lle mae'r Llywodraeth yn ganolog yn cyflogi athrawon, i'r Unol Daleithiau lle mae gan bob talaith system addysg a system atebolrwydd sy'n annibynnol o'i gilydd i Sweden lle mae 8% o'r cohort presennol o ddisgyblion yn ffoaduriaid ac mae rhaid i bob athro fod yn ymwybodol o ddulliau dysgu iaith.

Mae'n amlwg bod athrawon sawl gwlad wedi dioddef yn ystod y blynyddoedd diwethaf o'r ymgais i weithredu gormod o flaengareddau'n rhy gyflym. Fel y gwyddom yma yng Nghymru - gan bwyl mae mynd ymhell, ac fel dywedodd un cynadleddwr o Latfia, “Os ydych chi'n dymuno mynd yn gyflym ewch ar eich pen eich hun. Ond os ydych yn dymuno mynd ymhell – ewch gyda'ch gilydd.”

Diolch am 28 mlynedd o wasanaeth i'r undeb

Fel Ysgrifennydd Aelodaeth a Chyllid a Derbynydd UCAC mae Delyth Jones wedi bod yn gyswilt cyntaf i aelodau sydd yn cysylltu â'r brif swyddfa ers dros 28 mlynedd, sydd yn dipyn o gamp. Mae'n bosib eich bod wedi derbyn croeso ganddi yn y swyddfa, ar stondin Eisteddfod UCAC neu yn ystod y Gynhadledd. Mae wedi gweithio'n gydwybodol ac yn deyrngar iawn i UCAC ac mae ei phroffesiynoldeb yn amlwg i bawb.



Staff UCAC yn talu teyrnged i Delyth yn y Gynhadledd yng Ngregrynog

Mae ei chyfrifoldeb dros faterion aelodaeth a chyllid yr undeb wedi bod yn gyfraniad allweddol at waith a llwyddiant UCAC am bron i 30 mlynedd ac mae Delyth wedi addasu i heriau newydd a threigl amser. Pan ddechreuodd weithio i'r undeb roedd angen cadw pob cofnod ar bapur; dyma oes y teipiatur a'r gestetner. Datblygodd ei sgiliau dros y blynyddoedd er lles UCAC i allu ymdrin â'r heriau technolegol o fas data cymhleth electroneg a gwaith cyllid lle mae'r llyfr sicciau yn y drôr a'r cyfrifiatur yn frenin. Rydym wedi bod yn ffodus dros ben i dderbyn gwasanaeth Delyth dros y blynyddoedd - un sydd wedi bod yn dryw i UCAC fel aelod o staff ac un sydd, hefyd, yn byw egwyddorion UCAC o ddydd i ddydd. Dymunwn yn dda iddi yn ei hymddeoliad wrth gydnabod y golled fawr fydd ar ei hôl – fel cyd-weithiwr a ffrind.



Adnoddau • Adnoddau • Adnoddau

Ydych chi'n chwilio am adnoddau, gweithgareddau a syniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd? Mae gwefan Adnoddau Addysgol CBAC yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu'r cymwysterau. Ewch at <http://adnoddau.cbac.co.uk> i gael mynediad, rhad ac am ddim at yr adnoddau sydd yno ar eich cyfer.

Dyma rai enghreifftiau o adnoddau newydd sydd ar y wefan:



CA4 – Hanes – Newidiadau ym Mhatrymau Mudo, tua 1500 hyd heddiw

Adnodd i gefnogi addysgu Uned 3: Astudiaethau Thematiig TGAU Hanes CBAC. Mae'r adnodd yn bennaf at ddefnydd athrawon ac yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol am batrymau mudo.



CA4 – Busnes – Sgiliau meintiol ar gyfer TGAU

Tafenni gwaith a phosteri i gefnogi addysgu cyfrifiadau'r sgiliau meintiol sy'n berthnasol i Busnes TGAU. Caiff y gwahanol fathau o gyfrifiadau eu hesbonio ac yna ceir cyfres o gwestiynau gydag atebion.



CA4 – Cymraeg Ail iaith – Gwyllo a deall

Adnodd defnyddiol i athrawon wrth iddynt ddechrau paratoi dysgwyr ar gyfer Uned 1. Hefyd mae'n adnodd gwych i ddysgwyr ei ddefnyddio'n annibynnol gyda 4 clip fideo wedi'u cynllunio'n fwriadol i ddatblygu hyder a sgil dysgwyr. Ceir syniadau am drafodaethau a hefyd taflen sy'n awgrymu iaith addas i ymgeiswyr ei defnyddio wrth baratoi a chyflawni'r uned.



CA5 – Astudio'r Cyfryngau – Gemau fideo

Mae'r adnoddau yn dilyn pedwar rhan rhyngberthnasol y fframwaith cysyniadol sef: Iaith y Cyfryngau, Cynrychioliad, Diwydiannau'r Cyfryngau, a Chynulleidfaoedd gan gynnwys enghreifftiau o'r cynhyrchion a osodwyd. Mae'r adnoddau yn cynnig llw o gyfleoedd i ddysgwyr ddadansoddi'r diwydiant gemau, i archwilio materion o fewn y diwydiant a chynulleidfaoedd a chynnig persbectif beirniadol.




CA5 – Addysg Grefyddol – Cristnogaeth: Cysyniadau crefyddol

Adnodd cefnogol ar gyfer U2 Astudiaethau Crefyddol Uned 1A - Cristnogaeth, thema 2. Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar natur Duw a'r iawn.



CA5 – Cemeg – Cyseiniant Magnetig Niwclear NMR

Cyflwyniad i gefndir sbectrosgopeg NMR (Nuclear Magnetic Resonance) a dehongliad sbectra NMR proton. Mae'r adnodd yn cynnwys nodiadau argraffadwy ac animeiddiadau sy'n esbonio pam fod niwclwsau arbennig yn cynhyrchu sbectra NMR, pam fod atomau hydrogen mewn amgylcheddau gwahanol yn profi symudiadau cemegol gwahanol ac arwyddocâd arwynebeddau brig. Ceir esboniad hefyd am hollti brig mewn NMR cydraniad uchel.



Dyma rai o'r adnoddau sydd ar y gweill ar hyn o bryd:

- Lletygarwch ac Arlwyyo
- Mathemateg
- Bioleg
- Cymdeithaseg

Digwyddiadau

Eleni, cynhelir cynadleddau ar gyfer Ymarferwyr Uwchradd Cymraeg Ail iaith a Cynradd Cymraeg Iaith Gyntaf ar y dyddiadau canlynol:

- Ymarferwyr Cymraeg Iaith Gyntaf Cynradd – 30 Mehefin, 2017
- Ymarferwyr Cymraeg Ail iaith Uwchradd – 30 Mehefin, 2017

Dilynwch adnoddau addysgol CBAC ar [@adnoddau_cbac](https://www.facebook.com/adnoddau_cbac)

£ Gwasanaeth Ymgynghori Ariannol Annibynnol i Aelodau UCAC

CANLLAW CYF | www.canllaw.co.uk
01286 672011
Cynllunio ariannol ar gyfer eich ymddeoliad

DAVIES HEULYN DAVIES LTD | www.daviesheulyndavies.co.uk
01970 600007
Buddsoddiadau | Pensiynau | Yswiriant

STERLING PORTHMADOG CYF | 01766 513273
Buddsoddiadau | Pensiynau | Yswiriant | Morgeisi

Gyda thelerau arbennig i aelodau UCAC